OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 1848

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008

**Cynnal refferendwm**

**8.**—(1) Mae refferendwm i'w gynnal yn unol â Rheolau Refferenda'r Ddeddf Llywodraeth Leol (a gynhwysir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn).

(2) Mae'r darpariaethau a grybwyllir yn y golofn gyntaf o'r Tablau 1 i 5 o Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas â refferenda, yn ddarostyngedig i'r addasiadau a bennir yn yr Atodlen honno ac i unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb yn y Rheoliadau hyn.